Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Tudno
Rhodfa'r Drindod
Llandudno
Conwy
LL30 2SJ

12/06/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Mai 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Tudno yn ddiweddar i ystyried cynnydd o ran argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Achubodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennau, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o'r canfyddiadau o'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau cyfraniad pob arweinydd at y prosesau hunanwerthuso a chanolbwyntio'n fwy penodol ar effaith yr addysgu ar ddysgu

- Mae gan uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwella prosesau hunanwerthuso ac maent wedi ei rhannu'n bwrpasol â staff. Maent wedi cynyddu nifer y rolau arweinyddiaeth ganol, ac mae hyn wedi cryfhau capasiti'r ysgol ar gyfer gwella.
- Mae arweinwyr canol yn elwa ar ystod addas o weithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol sydd wedi eu hanelu at ddatblygu medrau arweinyddiaeth. Maent yn gweithio gydag ysgolion lleol ac yn cymryd rhan yn gynyddol mewn trafodaethau proffesiynol gyda chydweithwyr. Mae hyn yn datblygu eu gallu i werthuso darpariaeth yn gywir.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau priodol ar gyfer monitro effeithiolrwydd addysgu a dysgu.
- Mae arweinwyr ar bob lefel yn gwneud ychydig o weithgareddau monitro sy'n dechrau cefnogi eu dealltwriaeth o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae arweinwyr yn cynyddu eu ffocws yn gyson ar fesur effaith gwaith gwella ar gynnydd disgyblion. Er enghraifft, maent yn cydnabod bod cryfhau ansawdd adborth athrawon wedi gwella cynnydd a hyder disgyblion.

## Sicrhau bod addysgu yn darparu her briodol ar gyfer pob un o'r disgyblion a bod adborth yn eu helpu i wella'u gwaith ymhellach

- Mae arweinwyr wedi gweithio'n ddiwyd tuag at ddatblygu ymagwedd gyson at addysgu a dysgu ar draws yr ysgol. Maent wedi cyflwyno nodweddion gorfodol ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion mewn llythrennedd, ac mae hyn yn helpu codi disgwyliadau athrawon.
- Mae arweinwyr yn darparu dysgu proffesiynol defnyddiol ar gyfer staff sydd wedi'i anelu at wella addysgu a dysgu. Mae hyn wedi cynnwys ffocws ar ddefnyddio technegau holi effeithiol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o staff ar draws yr ysgol yn defnyddio holi i wirio dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu meddwl yn llwyddiannus. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn defnyddio holi yn hynod dda i asesu disgyblion yn y fan a'r lle, mynd i'r afael â chamdybiaethau a sicrhau bod her yn effeithiol.
- At ei gilydd, mae llawer o wersi yn adeiladu'n llwyddiannus ar yr hyn y mae disgyblion eisoes yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Mewn llawer o achosion, mae gan athrawon ddealltwriaeth glir o'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu nesaf ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddarparu'r lefel gywir o her.
- Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno dulliau newydd o addysgu mathemateg. Mae hyn yn cynnwys pwyslais ar gynorthwyo disgyblion i archwilio ystod o ddulliau i ddatrys problemau. Pan mae'n fwyaf llwyddiannus, mae hyn yn sicrhau bod lefel yr her ar gyfer disgyblion yn cael ei chynnal trwy gydol y wers.
- Mewn dosbarthiadau iau, mae staff yn rhoi ffocws cynyddol ar ddefnyddio offer mathemategol i gefnogi dysgu. Mae disgyblion yn siarad yn hyderus am sut maent yn defnyddio waliau gweithio ac ystod o adnoddau i'w helpu yn eu gwersi mathemateg. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae'r gwaith mathemateg ar gyfer disgyblion iau naill ai'n rhy hawdd neu'n rhy anodd. Ar hyn o bryd, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith a dim digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth fathemategol trwy chwarae.
- Yn gyffredinol, mae athrawon yn darparu adborth pwrpasol sy'n arwain dysgu disgyblion yn dda. Mae llawer o ddisgyblion yn glir am sut i wella agweddau ar eu gwaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn eu hysgrifennu. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan staff ac yn dechrau datblygu hyder o ran gwerthuso'u gwaith eu hunain.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:

https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/ysgol-tudno-cy/

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol